# Hunangofiant o Drychineb Aberfan

Edrychaf mas drwy'r ffenestr, a gweld y glaw yn cwympo yn ddi-baid. Mae hi'n bwrw hen wragedd a ffyn yma eto heddiw. Yn sydyn mae'r glaw yn fy atgoffa i o'r digwyddiad erchyll yn Aberfan hanner can mlynedd yn ôl ar yr unfed ar hugain o Hydref 1966. Dyma'r hanes.

Y dydd Gwener hwnnw codais o'r gwely yn wên o glust i glust, oherwydd un diwrnod arall oedd gen i yn yr ysgol cyn gwyliau hanner tymor! Newidais yn sydyn a chefais fy mrecwast a brwsiais fy nannedd â bant a fi i Ysgol Pantglas. Roedd hi'n bwrw hen wragedd a ffŷn y diwrnod hwnnw hefyd yn union fel heddiw. Gwelais fy nwy ffrind gorau Heledd a Katie ar y ffordd i'r ysgol a buom yn sgwrsio am beth oeddem yn bwriadu ei wneud yn ystod y gwyliau. Cyn gynted â chyrhaeddon ni canodd y gloch "Ding a Ling!"
"Os gwelwch yn dda ydy pawb yn gallu mynd i'r neuadd!" gwaeddodd Mrs Kirkman. Felly bant â ni i'r neuadd. Cawsom stori am mwnci a thylluan gan ein prifathro Mr Evans. Canon ni 'All thing Bright and Beautiful'. Dyna fy hoff emyn i.

Cerddais yn ôl i'r dosbarth yn gyffrous wrth feddwl am y wers fathemateg. Roeddem ni'n dysgu tabl 6.
"1 6 yw 6, 2 6 yw 12, 3 6 yw 18, 4 6 yw 24, 5 6 wy 30, 6 6 yw 36". Yn sydyn clywais sŵn rhyfedd. Death y sŵn yn agosach ac yn gryfach. Roeddwn i yn crynu fel deilen erbyn hyn ac yn gwybod bod rhywbeth ofnadwy ar fin digwydd. Rhewodd pawb. Gallech glywed pin yn cwympo. Doedd neb yn gwybod beth oedd y sŵn erchyll. Heb oedi edrychais i'r dde drwy'r ffenestr. Roedd yr olygfa yn frawychus. Gwelais glo sgleiniog du yn rhuthro i lawr o'r mynydd ac yn rhedeg fel afon byrlymus tuag at yr ysgol. Gwyddwn nad oedd modd dianc. Yn sydyn aeth pobman

yn dywyll fel bol buwch. Clywais sŵn byddarol wrth i'r glo daro yn erbyn yr ysgol. Clywais Katie yn sgrechian mewn poen ac, yna tawelodd hi. Roedd hi wedi marw. Dechreuais i grio o'm cuddfan o dan y bwrdd.

Blasais y llwch a'r gwaed coch yn fy ngheg. Wrth i mi ddisgyn roedd trawst o do yr ystafell wedi fy nharo ar fy mhen. Teimlais y glo yn gwthio pob nerth ohona i. Gwelais plant, fy ffrindiau yn gorwedd ar y llawr wedi marw. Clywais pobl yn sgrechian ac yn crio. Roeddwn yn gwybod bod rhywbeth trychinebus newydd digwydd a doedd dim modd i mi ddianc. Ond yna clywais fy mam yn gweiddi "LARA LARA!" Roeddwn yn trio ei hateb ond roedd y glo yn mynd yn fy ngheg ac yn gwneud i mi dagu ac yn gwasgu ar fy mron. Teimlais fraich Mrs Kirkman yn gafael yn fy mraich i ac yn fy nhynnu o'm cuddfan. Roeddwn i'n fud. Gafaelais ynddi'n dynn ac yna fe lewygais i.

Y peth nesaf dwi'n cofio yw agor fy llygaid ac edrych ar wyneb du fy mam. Dyna'r olygfa orau yn y byd i gyd. Buon ni'n ffodus fel teulu gan nad oedd unrhyw un o fy nheulu i wedi eu lladd. Ond bu farw nifer fawr o'm ffrindiau y diwrnod erchyll hwnnw.

Dyma fi heddiw yn eistedd yn fy nghadair esmwyth yn bwyta bisgeden siocled ac yn yfed paned o dê wrth edrych drwy'r ffenest ar y glaw di-baid. Teimlaf ddeigryn yn rhedeg i lawr fy moch ac rwyn gwybod na fyddaf i byth yn anghofio y digwyddiad difrifol a thrychinebus hwnnw yn Aberfan.

**gan Lara Jones**
**Dosbarth 5**